


# Cynllun Rhanbarthol Cwm Taf Crynodeb

## Trosolwg o'r prif gamau gweithredu ar gyfer ein cymuned yn ystod 2018-2019

# Cynllun Rhanbarth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles

Mae cynllun rhanbarthol wedi'i baratoi er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau'r Asesiad Poblogaeth a gafodd ei gynnal yng Nghwm Taf yn ystod 2017. Mae'r cynllun yn esbonio sut y byddwn ni'n darparu ystod o wasanaethau yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, er mwyn diwallu anghenion gofal a chymorth a gwella lles yn ein cymunedau rhwng 2018 a 2023. Mae'r ddogfen hon yn grynodeb sy'n rhoi gwybod i chi am rai o'r prif gamau gweithredu y byddwn ni'n canolbwyntio arnyn nhw yn ein rhaglen waith ar y cyd yn ystod 2018 a 2019. Mae fersiwn lawn o'r cynllun hefyd ar gael.




Yn ein cynllun, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i ni flaenoriaethu anghenion ac integreiddio gwasanaethau ar gyfer y grwpiau isod:

- Pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia
- Pobl sydd ag anableddau dysgu
- Cynhalwyr, gan gynnwys cynhalwyr ifainc
- Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd
- Plant sydd ag anghenion cymhleth o ganlyniad i anabledd neu salwch

Bydd ein cynllun hefyd yn ystyried anghenion y canlynol:

- Pobl â nam corfforol
- Pobl â nam ar y synhwyrau
- Pobl sydd wedi cael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod
- Y gymuned ehangach

**Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf sy'n arwain ar y cynllun yna**. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr bod sefydliadau yng Nghwm Taf yn darparu gwasanaethau effeithiol sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl, yn awr ac yn y dyfodol.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Cynghorau Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful, y Trydydd Sector, Fforwm Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru ac, yn bwysicaf oll, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a chynhalwyr.

# Asesiad Poblogaeth Cwm Taf


Rhoddodd yr Asesiad Poblogaeth ar gyfer Rhanbarth Cwm Taf gyfle i lawer o bobl a grwpiau o fewn y gymuned ddweud eu dweud trwy ystod eang o weithgareddau ac achlysuron ymgysylltu. Fe wnaeth y sgyrsiau ein helpu i ddeall yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sy'n bwysig i bobl sydd ag anghenion gofal a chymorth.

Mae'r Cynllun Rhanbarthol bellach wedi'i baratoi. Bydd yn ceisio mynd i'r afael â chanfyddiadau'r Asesiad ac yn benodol, chwe thema sy'n gyffredin i'n holl grwpiau o bobl sy'n flaenoriaeth. Dyma nhw:




Yn ogystal â'r uchod, byddwn ni'n gweithredu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru sy'n ffordd o ddefnyddio technoleg i helpu gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i gydweithio. Hefyd yn flaenoriaeth bydd edrych ar sut y mae modd i ni gomisiynu rhagor o wasanaethau gyda'n gilydd er mwyn darparu gofal yn nes at gartrefi pobl, yn ogystal ag edrych ar sut y mae modd i ni recriwtio a chadw gweithlu effeithiol i ddarparu'r camau gweithredu yn y cynllun yma.

Yn bwysicaf oll, byddwn ni'n parhau i ofyn i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, teuluoedd, cynhalwyr a darparwyr gwasanaethau weithio gyda ni i lunio a darparu gwasanaethau i bawb.



Blaenoriaeth 1

## Sefydlu gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref a datblygu cam 2

Nod Cadw'n Iach Gartref yw darparu gwasanaeth cyflym sy'n ymateb trwy symud rhagor o ofal y tu allan i'r ysbyty ac i'r gymuned leol, yn nes at gartrefi pobl. Mae'n helpu pobl i wella'u hiechyd, cynnal eu hannibyniaeth, a rhoi dewis arall iddyn nhw yn lle mynd i'r ysbyty. Mae gyda'r gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref garfan sy'n cynnwys nyrsys, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion a fferyllwyr sy'n gweithio yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

Nod y gwasanaeth yw darparu ymateb yn y gymuned o fewn 4 awr, 7 diwrnod yr wythnos, o 8.00am tan 8.00pm, 365 diwrnod y flwyddyn. Pan gaiff unigolyn ei dderbyn gan y gwasanaeth, mae asesiad cymesur yn cael ei gynnal yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys neu ar wardiau'r ysbyty er mwyn osgoi derbyn unigolion heb fod angen. Caiff cleifion eu cyfeirio at y gwasanaethau priodol.

Er mwyn helpu unigolion i ddychwelyd i'w cartrefi mewn ffordd amserol a diogel ar ôl bod yn yr ysbyty, mae ystod o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gael yn y gymuned, gan gynnwys gwasanaethau wedi'u darparu gan y Trydydd Sector, fel Age Connects Morgannwg a Care and Repair Cymru.

## Y camau gweithredu ar gyfer 2018/2019


Cam nesaf y gwasanaeth ymateb cyflym Cadw'n Iach Gartref integredig yng Nghwm Taf yw gwneud yn siŵr bod modd i weithwyr proffesiynol ym maes iechyd, lles, cyn-ysbyty a gofal cymdeithasol yn y gymuned atgyfeirio unigolion trwy un pwynt mynediad.

## Pwy fydd yn elwa o hyn?



- Pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia
- Cynhalwyr

## Pa themâu cyffredin bydd hyn yn ymdrin â nhw?






Blaenoriaeth
2

## Helpu i ddatblygu parthau cymunedol

Yng Nghwm Taf, rydyn ni'n gweithio gyda'n Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddod â'n gwasanaethau ynghyd trwy greu canolfannau mewn parthau cymunedol. Bydd y canolfannau'n darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth, help o ran dod o hyd i swyddi, cyfleoedd i greu llyfrgelloedd a chaffis cymunedol, yn ogystal â darparu ystafelloedd i grwpiau eu defnyddio.

Drwy'r parthau cymunedol, bydd modd i unigolion a theuluoedd gael gafael ar help yn lleol mewn un man canolog, a hynny mor gynnar yn y broses â phosib, er mwyn atal problemau rhag gwaethygu. Bydd gweithgareddau ar gael sy'n ymwneud â'r syniad o 'bresgripsiynu cymdeithasol', neu 'atgyfeirio cymunedol'. Dyma pan mae meddygon teulu, nyrsys, gweithwyr cymdeithasol a Chydlynwyr Cymunedol yn cyfeirio pobl at ystod o wasanaethau lleol yn y gymuned sydd ddim yn glinigol, fel grwpiau cymdeithasol, cerdded neu arddio, neu ddosbarthiadau ymarfer corff.

Bydd y parthau cymunedol hefyd yn ein helpu i sicrhau bod bywydau plant yn dechrau yn y ffordd orau bosib. Pan fydd cam-drin, gofid neu broblemau yn y teulu yn peri loes i blant, yn aml iawn bydd yn effeithio'n negyddol ar eu plentyndod ac wrth iddyn nhw droi'n oedolyn. Yr enw ar y rhain yw Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Y cyfnod pwysicaf i blentyn o ran datblygiad yw'r 1,000 o ddyddiau cyntaf rhwng beichiogrwydd a'i ben-blwydd yn ddwy oed.

Drwy weithio gyda rhieni a darparwyr gofal plant, gyda'n gilydd, bydd modd i ni helpu i sicrhau bod bywydau plant yn dechrau yn y ffordd orau bosib. Byddwn ni hefyd yn darparu hyfforddiant a sgiliau ar gyfer ein staff a'n cymunedau. Bydd hyn yn atal ac yn lleihau effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac yn helpu ein holl ddinasyddion i ffynnu.

## Y camau gweithredu ar gyfer 2018/2019

Bydd cynlluniau peilot ar gyfer "parthau cymunedol" mewn dwy gymuned yng Nghwm Taf, sef y Gurnos, Merthyr Tudful a Glynrhedynog yn Rhondda Cynon Taf.

Fe gawn ni sgyrsiau'n aml gyda phobl ym mhob ardal, fel bod modd iddyn nhw ddweud eu dweud am y gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw, a sut maen nhw'n cael eu trefnu a'u darparu.

Bydd grwpiau llywio lleol yn helpu partneriaethau lleol i ddod o hyd i gyllid ychwanegol.


Bydd cysylltiadau rhwng cymunedau a gwasanaethau yn well, a bydd rhagor o wybodaeth, cyngor a chymorth am yr hyn sydd ar gael yn lleol a sut mae dod o hyd i'r cymorth yna.

## Pwy fydd yn elwa o hyn?

- Pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia
- Pobl sydd ag anableddau dysgu
- Cynhalwyr, gan gynnwys cynhalwyr ifainc
- Plant sydd ag anghenion cymhleth o ganlyniad i anabledd neu salwch
- Plant sydd wedi cael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod
- Y gymuned ehangach



## Pa themâu cyffredin bydd hyn yn ymdrin â nhw?



**Blaenoriaeth 3**

## Mynd i'r afael â chanfyddiadau adolygiad cynhalwyr Cwm Taf

Caiff Cynhalwyr o bob oed yng Nghwm Taf eu gwerthfawrogi a'u cydnabod yn elfen sylfaenol mewn teuluoedd a chymunedau cefnogol a chydnerth.

Ar lefel genedlaethol, mae tri maes blaenoriaeth wedi'u nodi mewn perthynas â gwella profiadau cynhalwyr:

- Cymorth a bywyd ochr yn ochr â'r rôl ofalu
- Nodi a chydnabod
- Gwybodaeth, cyngor a chymorth

Bydd datblygu model gwasanaeth integredig yn lleol yng Nghwm Taf rhwng y gwasanaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Trydydd Sector yn gwneud yn siŵr fod dim rhaid i gynhalwyr ofalu ar eu pennau eu hunain. Bydd hefyd yn gwneud yn siŵr fod modd iddyn nhw ddod o hyd i wybodaeth, cyngor a chymorth i helpu i ddiwallu eu hanghenion, a hynny yn gynnar yn y broses. Bydd y model newydd yma'n gwneud yn siŵr fod cynhalwyr yn teimlo'n hyderus bod modd iddyn nhw fyw bywydau iach a chyflawn, gyda chydbwysedd rhwng eu rôl ofalu a'u bywydau eu hunain.

## Y camau gweithredu ar gyfer 2018/2019

Byddwn ni'n parhau i weithredu Cynllun Achredu Agored Cymru ar gyfer cynhalwyr mewn meddygfeydd meddygon teulu. Mae'r cynllun yn annog cynhalwyr i gofrestru eu hunain yn gynhalwyr mewn meddygfeydd. Mae hyn yn golygu bod meddygfeydd yn gwybod pwy'n sy'n gynhaliwr, ac yn gwybod efallai bydd angen cymorth ar ofalwyr oherwydd eu rôl ofalu. Byddan nhw hefyd yn gallu cyfeirio cynhalwyr at wasanaethau perthnasol mewn ffordd fwy effeithiol.


Gan weithio gyda'r Trydydd Sector, byddwn ni'n datblygu gwasanaeth peilot yn ysbytai Cwm Taf i ddarparu gwybodaeth a chymorth i gynhalwyr sy'n gofalu am gleifion ar y wardiau yno. Nod y gwasanaeth yma yw helpu pobl wrth adael yr ysbyty a gwneud yn siŵr bod gyda chynhalwyr yr wybodaeth gywir ar yr adeg gywir er mwyn eu helpu yn eu rôl ofalu.

## Pwy fydd yn elwa o hyn?



- Cynhalwyr, gan gynnwys cynhalwyr ifainc

## Pa themâu cyffredin bydd hyn yn ymdrin â nhw ?






Blaenoriaeth 4

# Datblygu Datganiad o Fwriad i bobl ag anabledd corfforol a nam ar y synhwyrau

Er bod y grŵp yma ddim yn cael ei nodi'n benodol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, ac yntau'n grŵp blaenoriaeth o ran integreiddio, mae'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn cydnabod yr angen i wneud rhagor o waith yn lleol i ddeall anghenion pobl â nam ar y synhwyrau ac anableddau corfforol yn ein cymuned, ac ymateb iddyn nhw. Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod ni'n cael yr effaith fwyaf bosib gyda'n gilydd, bydd gwaith Bwrdd Iechyd y Brifysgol wrth gyflawni ei Gynllun Gofal Llygaid, a gweithredu Safonau Cymru Gyfan ar gyfer cyfathrebu a gwybodaeth i bobl sydd â nam ar y synhwyrau yn sail i'r gwaith yma.

## Y camau gweithredu ar gyfer 2018/2019


Byddwn ni'n sefydlu gweithgor aml-asiantaeth sy'n cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u cynhalwyr, ac yn dechrau datblygu Datganiad o Fwriad i bobl ag anabledd corfforol a nam ar y synhwyrau.

## Pwy fydd yn elwa o hyn?



- Pobl â nam corfforol
- Pobl â nam ar y synhwyrau
- Pobl sy'n gynhalwyr

## Pa themâu cyffredin bydd hyn yn ymdrin â nhw?






**Blaenoriaeth 5**

## Cwblhau Cynllun Gweithredu Dementia Cwm Taf gan gynnwys Valley LIFE

Mae ein poblogaeth hŷn yn cynyddu'n gyflym, gyda chynnydd disgwyliedig o 61% o ran nifer y bobl dros 75 oed sy'n derbyn diagnosis dementia erbyn 2030.

Rydyn ni am ddatblygu Cwm Taf sy'n Deall Dementia. Mae hyn yn cynnwys prosiect Valley LIFE, sy'n ymwneud â sicrhau bod pobl â dementia, eu cynhalwyr a'u teuluoedd yn cael cymorth amserol i wella eu lles ac ansawdd eu bywyd.

Rhan allweddol o'r gwaith yma yw datblygu canolfan 'Iechyd a Lles' yn Nhreorci, gyda chynlluniau ychwanegol i greu cyfleusterau sy'n 'deall dementia' ym Merthyr Tudful. Y gobaith yw y bydd lleoedd fel hyn yn datblygu gwasanaethau lloeren ym mhob cymuned a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghwm Taf. Bydd croeso i bobl sy'n wynebu'r risg o ddatblygu dementia, neu sydd â phroblemau cof, eu teuluoedd a'u chynhalwyr ymweld â'r canolfannau i ddod o hyd i gymorth arbenigol a gwybodaeth i'w helpu i fyw bywyd llesol.

## Y camau gweithredu ar gyfer 2018/2019

Parhau i adnewyddu Ysbyty George Thomas yn Ganolfan Iechyd a Lles ar gyfer pobl â phroblemau gwybyddol a phroblemau gyda'u cof.

Yn amodol ar gyllid, rydyn ni'n bwriadu adeiladu Canolfan Iechyd a Lles newydd ar gyfer pobl â phroblemau gwybyddol a phroblemau gyda'u cof ar safle Parc Iechyd Keir Hardie.

Datblygu carfan Ymyrraeth Dementia Arbenigol ar gyfer cymorth dwys yng nghartrefi pobl a chartrefi gofal.


Gweithio gyda'r Trydydd Sector i flaenoriaethu gwasanaethau yn y gymuned sy'n deall dementia a rhywun/rhywbeth i gysylltu hyn â chymunedau.



## Pwy fydd yn elwa o hyn?

- Pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia
- Cynhalwyr, gan gynnwys cynhalwyr ifainc
- Y gymuned ehangach

## Pa themâu cyffredin bydd hyn yn ymdrin â nhw?






Blaenoriaeth
6

## Gwella gwasanaethau cyffredinol a gwasanaethau cyffredinol 'a mwy' i bobl ag anableddau dysgu

**Gwasanaethau Cyffredinol**

Does dim angen gofal cymdeithasol ar fwyafrif helaeth y bobl sydd ag anableddau dysgu, ac maen nhw felly'n byw yn y gymuned, gyda chymorth cyfyngedig. Fodd bynnag, maen nhw mewn risg uwch o lawer o gyflyrau iechyd corfforol, a meddyliol. Bydd gyda nhw lai o gyfleoedd i weithio, ac yn aml iawn maen nhw'n wynebu profiad o amddifadedd cymdeithasol. Mae helpu pobl sydd ag anableddau dysgu i fyw bywydau iach ac ystyrlon, ac atal yr angen am ddarparu gwasanaethau dwysach, yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau cyffredinol fod yn fwy hygyrch. Er mwyn gwneud gwasanaethau'n hygyrch i bobl ag anableddau dysgu, mae angen 'addasu'r gwasanaeth yn rhesymol', e.e. apwyntiadau cynghori hirach, taflenni gwybodaeth hawdd eu darllen, a chyfleoedd i ymweld â gwasanaethau a chyfleusterau a dod i'r arfer â nhw.

**Gwasanaethau Cyffredinol 'A Mwy'**

Bydd iechyd pobl sydd ag anableddau dysgu, ar gyfartaledd, yn fwy gwael na phobl eraill, ac maen nhw'n marw'n iau. Dylai pobl sydd ag anableddau dysgu gael modd i fanteisio ar wasanaethau gofal iechyd sylfaenol, cymunedol, ac eilaidd yn yr un ffordd â'r boblogaeth yn gyffredinol. Mae pobl sydd ag anableddau dysgu angen cymorth yn ystod eu bywyd i ddeall a mynegi'u hanghenion mewn perthynas â'u hiechyd, a lles, ac i fanteisio ar wybodaeth ar sail iechyd, ar y cyd â chymorth a chyfleoedd i ddilyn ffyrdd iach o fyw.

## Y camau gweithredu ar gyfer 2018/2019

Byddwn ni'n parhau i weithredu Datganiad o Fwriad Strategol Cwm Taf ar gyfer Plant, Pobl Ifainc, Oedolion sydd ag Anableddau Dysgu (gan gynnwys awtistiaeth ac anghenion cymhleth) a'u teuluoedd. Mae'r datganiad yn amlinellu'r dull strategol wrth flaenoriaethu anghenion. Mae'n nodi sut mae gwasanaethau'n cael eu llunio a'u darparu yn y ffordd fwyaf effeithiol er mwyn diwallu anghenion pobl ag anableddau dysgu, a'u teuluoedd.


Byddwn ni'n parhau i gyfathrebu ac ymgysylltu'n effeithiol â phobl ag anableddau dysgu, eu cynhalwyr, a'u teuluoedd i wneud yn siŵr eu bod nhw wrth wraidd ein cynlluniau polisi, comisiynu a gwella gwasanaethau.

## Pwy fydd yn elwa o hyn?



- Pobl sydd ag anableddau dysgu
- Cynhalwyr, gan gynnwys cynhalwyr ifainc

## Pa themâu cyffredin bydd hyn yn ymdrin â nhw?








## Byddwch yn rhan o waith Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Cwm Taf

**Rydyn ni am glywed eich barn chi, ac i chi fod yn rhan o'n penderfyniadau. Bydd hyn yn ein helpu i nodi'r hyn sy'n gweithio orau yn ein cymuned.**

**Mae sawl ffordd i chi gael y newyddion diweddaraf.**
Beth am ymuno â'n rhestr bostio? E-bostiwch Helen.Marshall@wales.nhs.uk am ragor o wybodaeth.

**Beth am ymuno â'n Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol?**
Pwrpas y Rhwydwaith yw gwneud yn siŵr bod deilliannau cadarnhaol a lles pobl leol cystal ag y gallan nhw fod, yn ogystal â dylanwadu ar y ffordd y caiff gwasanaethau lleol eu darparu. Drwy sicrhau bod eich llais chi yn cael ei glywed, mae modd:

- Gwella iechyd a lles
- Gwneud cymunedau'n fwy diogel
- Sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl i gyflawni potensial
- Gwella'r amgylchedd ffisegol
- Cefnogi economïau lleol



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Simon James:
**sjames@interlinkrct.org.uk**

Mae fersiwn lawn o Gynllun Rhanbarthol Cwm Taf ar gael trwy:
http://cwmtaf.wales/how-we-work/plans-and-reports/cwm-taf-social-services-and-well-being-area-plan/
neu drwy sganio'r cod QR.